# Our Service for Parents, Carers and Young People

Section 27 of the Childcare Act 2006 sets out the roles and responsibilities of Local Authorities in relation to the provision of information, advice and assistance to parents, prospective parents and carers. The Act significantly increased the breadth of information that Local Authorities are now required to provide relating to services for children and the ways in which this information should be made available. These services are known as Family Information Services FISs.

Blaenau Gwent FIS offers a safe, free and impartial way to find information about services for families throughout the borough. We cover a range of information that equip parents, prospective parents and family members with advice and assistance about the care, health, education and recreation of children, including those with specific requirements.

We know that choosing childcare and activities for your children to take part in is a huge step. There are a lot of different options to choose from and over the years your family may use a range of different services. As your family grows it will have different needs and your employment commitments may also change. We hold comprehensive, up-to-date information on our database about childcare within Blaenau Gwent County Borough.

***We hold details about:***

- Childminders
- Day Nurseries
- Out of School Clubs
- Playgroups and Cylchoedd
- Meithrin
- Early Years Education Providers

***We also hold information about:***

- Parent and Toddler and
- Cylch Ti a Fi
- Play Opportunities
- Family Support Services and Organisations

Blaenau Gwent

Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd

Family Information Service

- Baby and Toddler Activities
- Children's Activities e.g. Brownies and Cubs,
- Swimming and Dancing Classes etc

***Information for Young People:***

- Young People Support Services and Organisations
- Young People's Activities including Driving Lessons, Scouts, Skate Parks etc

When you call us we will take all your relevant details and after your enquiry you will be sent a pack through the post or an e-mail, whichever is more convenient, with all the information you requested and also supporting guidance such as the sort of questions to ask the provider or organisation when you contact them.

***Information, Advice and Support includes:***

Information which is accurate, up-to-date and impartial about childcare, health, recreation and learning opportunities, choices, information about funding and where to find help and advice and how to access this.

**Advice** - it means the provision of advice that empowers parents to make decisions on support or services for their own situation.

**And support** - this is the provision of an impartial signposting and referral service to more appropriate or specialist support for example the Financial Services Authority to help parents meet their family's current and future needs.

# Confidentiality

The Service complies with the Data Protection Act and acknowledges that information relating to children, families and young people is sensitive and needs to be handled carefully.

We are fully committed to respecting the confidentiality of service users and providers. You have the right to decide what information you choose to share with us.

## Our commitment

Family Information Service staff will not divulge any personal details of service users to outside parties without their prior permission except in circumstances outlined below.

The confidentiality of service users or personnel will only be breached if any information received by the Service gives rise to concern for the safety or well being of a child or young person. When such situations arise the Service will activate is Compliments and Complaints (about provision) procedure. All staff are aware of, and agree to abide by, the confidentiality policy. This includes both staff employed directly by the Service and any others who represent the service in any way.

## Impartiality

We know that families need sufficient information on the full range of options available in order to make an informed choice. This is particularly true when they are not familiar with all types of provision available.

# Ein Gwasanaeth i Rieni, Gofalwyr a Phobl Ifanc

Mae Adran 27 Deddf Gofal Plant 2006 yn amlinellu swyddogaethau a chyfrifoldebau Awdurdodau Lleol o ran darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i rieni, darpar rieni a gofalwyr. Bu'r Ddeddf yn gyfrifol am gynnydd sylweddol yn amrediad yr wybodaeth y mae'n rhaid i Awdurdodau Lleol ei darparu erbyn hyn mewn perthynas â gwasanaethau ar gyfer plant a'r ffyrdd y dylai'r wybodaeth hon fod ar gael. Gelwir y gwasanaethau hyn yn Wasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd (GGD).

Mae GGD Blaenau Gwent yn cynnigffordd ddiogel, ddi-dâl a diduedd o ddarganfod gwybodaeth am wasanaethau i deuluoedd ym mhob cwr o'r fwrdeistref. Rydym yn cwmpasu amrywiaeth o wybodaeth i rieni, darpar rieni ac aelodau teuluol ac mae'r wybodaeth hon yn rhoi

Gwyddom fod dewis gofal plant a gweithgareddau y gall eich plant gymryd rhan ynddynt yn gam enfawr. Mae llawer o wahanol opsiynau a thros y blynyddoedd efallai y bydd eich teulu yn defnyddio amrywiaeth o wahanol wasanaethau. Wrth i'ch teulu dyfu bydd yr anghenion yn wahanol a gallai eich ymrwymiadau gwaith hefyd newid. Ar ein cronfa ddata mae gennym wybodaeth gynhwysfawr, gyfredol am ofal plant o fewn bwrdeistref sirol Blaenau Gwent.

***Rydym yn cadw manylion am:***

- Warchodwyr plant
- Meithrinfeydd Dydd
- Clybiau y Tu Allan i Oriau Ysgol
- Cylchoedd Chwarae a Chylchoedd Meithrin
- Darparwyr Addysg Blynyddoedd Cynnar

***Mae gennym wybodaeth hefyd am:***

- Grwpiau Rhieni a Phlant Bach a Chylchoedd Ti a Fi
- Cyfleoedd Chwarae

Blaenau Gwent

Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd

Family Information Service

- Gwasanaethau a Sefydliadau Cymorth i Deuluoedd
- Gweithgareddau Babanod a Phlant Bach
- Gweithgareddau Plant e.e.Brownies a Chybiau,
- Gwersi Nofio a Dawnsio ayyb

***Gwybodaeth i Bobl Ifanc:***

- Gwasanaethau a Sefydliadau Cymorth i Bobl Ifanc
- Gweithgareddau Pobl Ifanc yn cynnwys Gwersi Gyrru, Sgowtiaid, Parciau Sglefrio ayyb

Pan fyddwch yn ein ffonio byddwn yn cymryd eich holl fanylion perthnasol ac ar ôl derbyn eich ymholiad anfonir pecyn ichi drwy'r post neu drwy e-bost, beth bynnag sydd fwyaf cyfleus, gyda'r holl wybodaeth y gwnaethoch ofyn amdani a hefyd canllawiau ategol megis y math o gwestiynau i'w gofyn i'r darparwr neu'r sefydliad pan fyddwch yn cysylltu â hwy.

***Mae Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth yn cynnwys:***
Gwybodaeth gywir, a gyfredol diduedd am ofal plant, iechyd, adloniant a chyfleoedd dysgu, dewisiadau, gwybodaeth am gyllid ac ym mhle i gael cymorth a chyngor a sut i gael gafael ar yr wybodaeth hon.
**Cyngor** - mae'n golygu rhoi cyngor sy'n galluogi rhieni i wneud penderfyniadau ynghylch cymorth neu wasanaethau ar gyfer eu sefyllfa hwy.
**A chymorth** - mae hyn yn golygu darparu gwasanaeth arweiniol a chyfeirio diduedd at gymorth mwy addas neu fwy arbenigol, er enghraifft Yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol i helpu rhieni i gwrdd ag anghenion eu teulu ar hyn o bryd a'u hanghenion yn y dyfodol.

# Cyfrinachedd

Mae'r Gwasanaeth yn cydymffurfio â'r Ddeddf Gwarchod Data ac yn cydnabod fod gwybodaeth sy'n gysylltiedig â phlant, teuluoedd a phobl ifanc yn sensitif ac y dylid ei thrin yn ofalus. Rydym wedi ymrwymo'n llwyr i barchu cyfrinachedd defnyddwyr a darparwyr gwasanaethau. Mae gennych hawl i benderfynu pa wybodaeth yr ydych yn dewis ei rhannu â ni.

## Ein hymrwymiad

Ni fydd staff Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn datgelu unrhyw fanylion personol am ddefnyddwyr gwasanaeth i bartïon allanol heb eu caniatâd, ac eithrio yn yr amgylchiadau a amlinellir isod. Bydd cyfrinachedd defnyddwyr neu bersonél y gwasanaeth yn cael ei dorri yn unig os bydd unrhyw wybodaeth a dderbynnir gan y Gwasanaeth yn arwain at bryder ynghylch diogelwch neu les plentyn neu berson ifanc. Pan fydd sefyllfaoedd o'r fath yn codi, bydd y Gwasanaeth yn rhoi ei weithdrefn Canmoliaeth a Chwynion (ynglŷn â darpariaeth) ar waith. Mae'r holl staff yn ymwybodol o'r polisi cyfrinachedd ac yn cytuno ufuddhau iddo. Mae hyn yn cynnwys staff a gyflogir yn uniongyrchol gan y Gwasanaeth a hefyd unrhyw rai eraill sy'n cynrychioli'r gwasanaeth mewn unrhyw fodd.

## Didueddrwydd

Gwyddom fod ar deuluoedd angen digon o wybodaeth ynghylch yr holl amrywiaeth o opsiynau sydd ar gael er mwyn gwneud dewis deallus. Mae hyn yn arbennig o wir pan nad ydynt yn gyfarwydd â'r holl fathau o ddarpariaeth sydd ar gael.